

Jesus and Nicodemus (John 3:1-21)



Cyflwyniad

Yr wythnos hon byddwn yn dysgu mwy am ddechrau gweinidogaeth Iesu. Ymwelodd Pharisead o'r enw Nicodemus â Iesu a gofyn am atebion i'w gwestiynau. (Ioan 3:1-21) Dyma rai o'r pwyntiau allweddol y byddwn yn eu hastudio-

- Bywyd ysbrydol vs. Bywyd corfforol.
- Nid yw gwneud pethau da yn ddigon. Roedd Nicodemus yn ufuddhau i'r gyfraith, ond roedd angen iddo ymddiried yn Iesu.
- Roedd Duw yn caru'r byd gymaint y rhoddodd Iesu i ni gael bywyd tragwyddol.

Canllaw Gwers

Siaradwch â'ch plentyn am gwestiynau. Tynnwch sylw at y ffaith bod rhai cwestiynau'n haws eu hateb nag eraill e.e. mae'n hawdd ateb yr hyn sydd i ginio, ond y gall cwestiynau sy'n gofyn 'Pam?' fod yn anoddach eu hateb. Eglurwch fod gan Nicodemus gwestiynau mawr yr oedd angen atebion arnynt. Tynnwch sylw at y ffaith bod Nicodemus wedi mynd at Iesu i dderbyn atebion i'w gwestiynau. Siaradwch am sut y gallwn ni fynd at Iesu i ateb ein cwestiynau anodd ni hefyd. Eglurwch fod yr atebion yn y Beibl weithiau, ac weithiau mae angen i ni ymddiried bod Duw'n gwybod yr ateb ac mai E sy'n rheoli.

Eglurwch fod Nicodemus wedi drysu ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng pethau ysbrydol a phethau corfforol. Eglurwch na ellir cyffwrdd â phethau ysbrydol fel pethau corfforol. Tynnwch sylw at y ffaith y gellir cyffwrdd â llaw eich plentyn, ond na ellir cyffwrdd ag enaid rhywun. Efallai y byddwch yn parhau i siarad am bethau y gallwn eu gweld a phethau na allwn eu gweld drwy ofyn i'r plentyn nodi pa un yw pa un. Rhowch gwtsh i'ch plentyn a thynnwch sylw at y ffaith ei fod yn gorfforol (gallwn ei weld) ond eglurwch ei fod hefyd yn arwydd o'r cariad sydd gennych ato, Os yw'n ddiwrnod gwyntog, gallwch fynd allan. Gallwch hefyd ddefnyddio ffan neu sychwr gwallt. Gofynnwch i'r plentyn a ydyn nhw'n gallu gweld y gwynt. Ni allant wneud hynny. Gofynnwch i'r plentyn a ydyn nhw'n gallu gweld beth mae'r gwynt yn ei wneud. Tynnwch sylw at y ffaith y gallwn. Eglurwch efallai na fyddwn ni'n gallu gweld Iesu yn enaid rhywun, ond fe allwn ni weld yr arwyddion ei fod Ef yno yn eu geiriau a'u gweithredoedd. Gallwch ddewis darllen ffrwyth yr ysbryd a geir yn Galatiaid 5:22-23.

Tynnwch sylw'r plentyn at y ffaith nad yw gwneud pethau da yn ddigon. Mae angen i ni ymddiried yn Iesu i wneud ein henaid yn lân. Siaradwch am sut y daeth Iesu i'r byd i achub Gyda help eich plentyn, llenwch jwg gyda phethau budr fel hen waddod coffi, bagiau te, bwyd wedi'i adael ar ôl pryd ac ati. Arllwyswch ddŵr dros y top a'i droi i wneud llanastr budr. Gofynnwch ydy hi'n beth da i yfed y dŵr brwnt. Os yw'ch plentyn yn ifanc efallai y bydd rhaid i chi esbonio nad yw yfed y dŵr brwnt yn beth da o gwbl. Esboniwch bod ein henaid fel y dŵr brwnt cyn i Iesu ei lanhau. Ychwanegwch lwyaid o ddŵr a gofynnwch ydy'r dŵr glân wedi glanhau'r dŵr brwnt neu ydy'r dŵr brwnt wedi troi'r dŵr glân yn frwnt. Gallwch ychwanegu llwyaidiau o ddŵr ac esbonio bob tro nad yw'r dŵr yn cael gwared â'r baw yn union fel na all ein gweithredoedd da ni gael gwared â'n gweithredoedd gwael ni.

Os yw'r plentyn yn ddigon hen, gofynnwch iddyn nhw eich helpu i ddatrys sut i wneud y dŵr yn y jwg yn lân. Efallai y byddwch yn eu helpu i sylweddoli bod yn rhaid iddynt dynnu'r dŵr a'r darnau budr, yna sgwrio a glanhau'r jar. Gadewch iddynt eich helpu i'w olchi. Tra byddwch chi'n gwneud hynny siaradwch am sut mae Iesu'n glanhau'r pechod o'n heneidiau ac yn ein golchi'n lân. Yna llenwch y jwg gyda dŵr glân a thynnwch sylw at y ffaith fod Iesu'n llenwi ein henaid â'i gyfiawnder.

Arllwyswch wydraid o ddŵr i chi ei yfed o'r jwg lân a siaradwch am sut mae Duw'n ein caru gymaint nes iddo anfon Iesu i'n gwneud ni'n lân.

Gweddïwch a diolchwch i Iesu am ddod i'r byd i achub pechaduriaid.



Dywedodd Iesu rywbeth rhyfeddol wrth Nicodemus. Meddai Iesu, " Ydy, mae Duw wedi caru'r byd cymaint nes iddo roi ei unig fab, er mwyn i bwy bynnag sy'n credu ynddo beidio mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol."

Roedd Nicodemus yn deall. Yr unig ffordd i gael bywyd tragwyddol yw credu ac ymddiried yn Iesu.



Roedd Nicodemus yn ddyfnwysig iawn.

Roedd yn arweinydd yn Israel.

Roedd hefyd yn ffarmwr. Astudiai a dysgai rannau o'r Beibl ar ei gof bob dydd a gwneud ei orau i ufuddhau iddo.

Roedd Nicodemus eisiau gwybod mwy am Iesu.



Un noson, daeth Nicodemus i siarad â lesu yn gyfrinachol. Doedd e ddim eisiau i neb arall ei weld. Gwyddai Nicodemus fod lesu'n arbennig am ei fod wedi clywed am lesu'n dysgu a gwneud gwyrthiau. Roedd gan Nicodemus lawer o gwestiynau i'w gofyn i lesu.



Rhaid i chi gael eich geni eto

Dywedodd lesu wrth Nicodemus fod yn rhaid i chi gael eich geni eto i fynd i'r nefoedd. Nid oedd hyn yn gwneud unrhyw synnwyr i Nicodemus. Gwyddai ei bod yn amhosibl cael eich geni ddwy waith. Ond roedd lesu'n sôn am enedigaeth ysbrydol. Esboniodd lesu, yn union fel rydyn ni'n cael ein geni fel babanod, fod yn rhaid i ni gael ein geni eto i gael perthynas â Duw.

Gêmau a Gweithgareddau

Hedfan barcud neu wneud Melin Wynt

Os yn bosibl, ewch allan a hedfan barcud. Dewis arall yw gwneud melin wynt syml. Mae tudalen dempled wedi'i chynnwys yn y wers hon. Ond fe allech chi hefyd ddefnyddio potel blastig.

Siaradwch am sut na allwn weld y gwynt, ond gwyddom ei fod yno oherwydd ein bod yn gweld ei bŵer.



Peidiwch â chael eich dal

Cael un chwaraewr i wynebu'r wal. Dylai pawb arall sefyll y tu ôl iddynt ar ochr arall yr ystafell. Syniad y gêm yw i'r chwaraewyr sleifio i fyny a thapio'r person sy'n wynebu'r wal ar yr ysgwydd. Gall y person droi o gwmpas ar unrhyw adeg, a rhaid i unrhyw un a welir yn symud ddychwelyd i'r dechrau. Atgoffwch nhw sut nad oedd Nicodemus am gael ei ddal yn siarad â Iesu.

I-spy yn y Tywyllwch

Mae hon yn gêm nodweddiadol o i-spy, ond yn y tywyllwch. Yn dibynnu ar oedran y plant, gallech ddefnyddio llythrennau neu liwiau.

Siaradwch am sut mae'n llawer anoddach gweld pethau yn y tywyllwch a dyma pam y penderfynodd Nicodemus siarad â Iesu yn ystod y nos.






Torrwch ar hyd y llinellau i wneud jig-so

Mae Duw wedi caru'r byd cymaint


Ioan 3:16




Torrwch y pethau sy'n dod allan yn y nos
a'u gludo i'r llun



Lliwch y Tir yn Wyrdd a'r Môr yn Las



Lliwiwch yr holl saethau sy'n pwyntio i fyny'n wyrdd
Lliwiwch yr holl saethau sy'n pwyntio i lawr yn goch



Yn union fel y cododd Moses y neidr yn yr anialwch felly rhaid i Fab y Dyn gael ei godi,-
Ioan 3:14

Mae Duw wedi caru'r byd cymaint



Yr hyn sydd ei angen arnoch:

Tudalennau templed (argraffu un dudalen map yn unig. Cynnwys eich gwlad).

Pensiliau lliwio

Siswrn

Glud

Beth i'w wneud:




Lliwiwch y tudalennau templed.



Torrwch y byd, y dwylo a'r galon allan.




Gludwch ddwylo ar ochr y byd. Plygwch y galon a gludwch i lawr y canol. Rhowch hi ar ganol y byd.














Olwyn pin papur

Fe fydd arnoch chi angen:
Pin papur, pensiliau lliw, ffon bren

- 1) Lliwiwch ddwy ochr y templed.
- 2) Torrwch o gwmpas y tu allan ac ar hyd llinellau dotiau
- 3) Piniwch y cylchoedd du gyda'i gilydd
- 4) Piniwch i mewn i'r ffon bren










Rhaid i chi gael
eich geni eto



Mae Duw wedi caru'r byd cymaint
nes iddo roi ei unig Fab er mwyn i
bwy bynnag sy'n credo ynddo
beidio mynd l ddistryw ond cael
bywyd tragwyddol.

Ioan 3:16

Amser Addoli

Awgrymwch ganeuon addoli heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids. Fideos YouTube i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.

Stori - Iesu a Nicodemus - Trueway kids

<https://youtu.be/gg0WfkTssc0>

For God So Loved (John 3:16)

<https://youtu.be/HJPi6uDlaL4>

God So Loved - Hillsong kids

<https://youtu.be/BdzWhNp4cjk>

John 3:16

<https://youtu.be/k2iHNzNjkJw>



Gweddidi

0gallwn fwynhau bywyd tragwyddol gydag Ef.

Gofynnwch i Dduw eich helpu i gredu ac ymddiried ynddo.

Wythnos nesaf

Pysgotwyr Dynion

Os nad ydych eisoed wedi gwneud hynny, cofrestrwch i dderbyn gwerau yn y dyfodol drwy e-bost.

truewaykids.com/subscribe/

